YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 40. RHIF 2 GORFFENNAF 2018 50c


# Taro ar Organ a Phobl Ddawnus



*Plant Ysgol Gymraeg Trelew yn canu yn Lerpwl*



*Parchedig Dr D. Byron Evans, Clarborough ( 1923-2018) a fu yn darlithio yn ein plith yn Lerpwl*



*Y cymwynaswr William Roscoe o Allerton Hall, mentor John Gibson*



*Organ y Cymry sydd bellach yn Carno, Maldwyn*

**YN Y RHIFYN HWN -**

**Golygyddol (Arwr Anfield a'r Aifft); Henaduriaeth i'w chofio; Ysgrif Goffa i Kenneth Arwyn Williams; Newyddion Bethel, Bethania a Seion. Crwydro Cymru (Berwyn)**

Golygyddol

# Arwr Anfield o'r Aifft. Dymuno'n Dda i Mohamed Salah - gan D. Ben Rees

Roedd hi'n noson fawr er na allwn weld y gêm ond gallwn wrando ar Radio Glannau Mersi a Radio 5 am y sylwebu ar gêm fawr y flwyddyn, clwb Lerpwl yn erbyn Real Madrid am Gwpan Pêl-droed Ewrop. Gwledd i'r llygad oedd gweld strydoedd Lerpwl yn llawn o faneri y clwb a'r ddinas. Ceid y baneri mewn dau dŷ yn Tanat Drive a drws nesaf i ni yn Garth Drive. Teithiodd o leiaf ddeugain mil o gefnogwyr Lerpwl i Kiev yn yr Wcrain i weld y gêm, a daeth cefnogwyr y tîm o wahanol fannau yn y byd. Clywais leisiau rhai o Seland Newydd, Efrog Newydd, California, yr Aifft, pob un am weld Lerpwl yn gorchfygu tîm gorau pêl-droed Ewrop ers rhai blynyddoedd. Ofnwn na fyddai Lerpwl yn llwyddo, ond croeswn fy mysedd mewn gobaith y gwelwn Mohamed Salah yn sgorio. Ef yw'r seren ar hyd y tymor. Sgoriodd 44 o weithiau, y gorau o holl chwaraewyr timau Lloegr yn 2017/18.

Y mae gan Mohamed Salah ei ddylanwad ar gae godidog Anfield, fel ag ar gaeau eraill. Daeth yn arwr i ni yn Lerpwl. Aelod o'r Mosg, Mwslim o ran credo, wedi creu cymaint o syndod a rhyfeddod i bobl o bob cefndir, lliw a rhagfarn. Dywedodd un Sgowser:

*"If he scores another few; then I'll be a Muslim too."*



***Mohamed Salah***

Ei esiampl ar y cae yn gorfodi un o gefnogwyr Lerpwl i ystyried coleddu ei grefydd! A soniwyd fel yr oedd ef y dyddiau cyn y gêm yn Kiev wedi bod yn ymprydio yn nhymor Ramadan. Da ei weld yn arddel ei ffydd mewn didwylledd a chalon agored. Ac felly tra yr oedd Salah yn y tîm nid oedd hi'n amhosibl i ennill. Gwelodd tîm gorau Prydain, Dinas Manceinion, ei allu a llwyddodd Salah i sgorio yn erbyn yr anfawrolion a wisgai liwiau *Manchester City*. Enillodd Lerpwl y tro hwnnw!

Ac yna yn y sylwebaeth daeth tristwch. Roedd un o wŷr cadarn Real Madrid wedi hyrddio ei hun yn erbyn Mohamed. Syrthiodd ar ei wyneb a chlwyfo ei hun yn enbyd. Clywn ei riddfan. Llenwid ei lygaid â dagrau am ddau reswm. Yr oedd mewn poen dirdynol, a dyna sydd yn rhoddi dagrau i lygaid y dewraf o'n hawduron, ein chwaraewyr pêl-droed, hoci a rygbi. Ond yr oedd rheswm arall am ddagrau Salah. Wylai yn hidl am na ddeuais siawns iddo sgorio a dod â'r cwpan adref i Lerpwl. Bu ei reolwr Klopp heb ddim i orfoleddu ynddo, a chyn hir bydd yn rhaid meddwl am ŵr i gymryd ei le. Mae'n amlwg nad oes ganddo ddoniau oedd yn eiddo i Shankley a Paisley, y ddau orau bosibl.


Wylai Salah am reswm arall. Sylweddolai fod y poen a ddeuai o'i ysgwydd yn golygu triniaeth lawfeddygol a thymor o adferiad. Byddai yn gorfod anghofio pêl-droed am chwe wythnos fwy neu lai. Golygai hynny na allai helpu ei bobl ei hun, ei genedl, a'i wlad dlawd a thrist, yr Aifft. Bywyd anodd yw bywyd pobl yr Aifft, nid oes dim byd i godi eu calonnau, ar wahan i ddawn digamsyniol Mohamed Salah ar y cae pêl-droed. Ef yw siarad y bobl bellach. Gwelir ei wyneb ym mhobman ar grysau, ar foduron, ar waliau y lleoedd bwyta pob tref a dinas.

Draw traffig diddiwedd Cairo i drefn pan mae Lerpwl yn chwarae. Gwelir ei gefnogwyr oamgylch y setiau teledu yn siopau coffi ac ar gornel y strydoedd yn bloeddio ei cymeradwyaeth i'r arwr.

Edmygir ei grefyddoldeb, ei haelioni, ei ostyngeiddrwydd, a'i allu i sgorio o bob cyfeiriad. Alltud ydyw bellach gan na all unrhyw glwb yn yr Aifft ei fodloni. Chwaraeodd ddwy flynedd gyda thîm tref ei febyd cyn dod i Ewrop. Ni fu yn ryw lwyddiannus iawn hyd nes i Lerpwl ddod o hyd iddo a thalu pris rhyfeddol o isel erbyn hyn amdano. Wylai Salah am ei fod yn methu gwisgo jersi Aifft yng Nghwpan y Byd yn Rwsia haf eleni. Dyma'r tro cyntaf i'r Aifft gael chwarae yng Nghwpan y Byd oddi ar y flwyddyn 1990, 28 o flynyddoedd yn ôl. Diflannodd gobeithion yr Aifft fel gobeithion Lerpwl pan syrthiodd Salah. Ni fu gôl-geidwad Lerpwl, o help, druan ohono, a bu'n rhaid i'm tîm wynebu ar arwr y Cymry, Gareth Bale. Y mae Bale yn golygu cymaint i ni cenedl y Cymry ag yw Salah i'r Aifft. Ni lwyddodd Salah hyd yn hyn sgorio gôl tebyg i gôl Gareth Bale. Pam na aiff Lerpwl ar ei ôl ar gyfer y tymor nesaf? Gwych fyddai gweld Bale a Salah yn yr un tîm ar gae Anfield

# CORNEL Y TRYSORYDD

## GORFFENNAF 2018



| | |
|---|---|
| Mrs Mair Rees Jones (Er cof am Walter) Penbedw | £25.00 |
| Mrs Ann S Jones, Bebington | £25.00 |
| Mrs Mair Roberts, Rhuthun | £30.00 |
| Mr a Mrs Robyn Williams, Caergybi | £20.00 |
| Mr E.W. Williams, Childwall | £12.00 |
| Rhodd Cymdeithas Gymraeg, Manceinion | £100.00 |
| Mrs Mary C Jones, Nefyn | £12.00 |
| Mr a Mrs Glyn Davies, Rhuthun | £25.00 |
| Mr a Mrs R Owen, Allerton | £90.00 |
| Mrs Marian Prys Davies, Bae Colwyn | £20.00 |
| Yr Athro Huw Rees, Boncath | £30.00 |
| Rhodd Eglwys Seion, Penbedw | £50.00 |
| Mrs Morfydd Roberts, Abergele | £30.00 |
| Mr a Mrs John Lyons, Knowsley | £50.00 |
| Mr a Mrs Alun Vaughan Jones, Childwall | £20.00 |
| Yr Athro David Price Evans, Woolton | £20.00 |
| **Cyfanswm** | **£559.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*YSGRIF GOFFA I*

# Kenneth (Ken) Arwyn Williams

## (1924 - 2018), Gateacre, Lerpwl

**Cynnyrch aelwyd werinol ym mhentref Meinciau yn Nyffryn Gwendraeth oedd Ken Williams, ac yno fe'i ganwyd ar 8 o Ragfyr 1924 yn fab i John ac Alice Williams. Teilwr oedd ei dad a Ken oedd yr ail fab. Maurice oedd yr hynaf a Ceri yr ieuengaf o'r tri a chadwodd gysylltiad agos â bro ei febyd a'i deulu a fu'n addurn yng nghapel y Bedyddwyr Cymraeg. Siaradai yn annwyl am ei ddyddiau cynnar a'r holl weithgarwch a gynhelid mewn blynyddoedd o ddirwasgiad a chyni. Bendithiwyd ef a gallu arbennig gan ennill ysgoloriaeth yn un ar ddeg i Ysgol enwog y Frenhines Elisabeth yng Nghaerfyrddin. Yn yr ysgol gwnaeth enw iddo'i hun fel chwaraewr rygbi o'r reng flaenaf. Onibai am yr Ail Ryfel Byd byddai wedi chwarae dros Gymru.**

**Yn ystod y Rhyfel bu yn signalwr gyda'r Royal Navy a gwelodd borthladd Lerpwl ar un o'r teithiau hyn. Bu yn gwasanaethu gyda'r Llynges ar Ynys Manaw a gwelodd y Dwyrain Pell. Ar ei ben-blwydd yn un ar hugain oed ag yntau ym mhellafoedd y byd derbyniodd neges. Ar ôl agoriad y neges sylweddololdd mai llongyfarchiadau oddi wrth ei rieni ydoedd. Ar derfyn y Rhyfel daeth i Lerpwl a chael swydd yn Adran Iechyd Corfforaeth Lerpwl. Swydd wrth fodd ei galon a dringodd yr ysgol yn gyson a chael ei hun yn Brif Swyddog Iechyd Cyhoeddus y ddinas. Gwnaeth lu o ffrindiau yn ei swydd bwysig ac yr oedd ganddo stôr o straeon am y cartrefi a'r cymeriadau a gyfarfu.**

**Bu yn ffodus yn ei briod, Audrey a'i deulu a bu ei cholli hi yn 2013 yn ergyd drom iddo. Ond gyda cymorth ei anwyliaid a chapel Bethel cadwodd ei hun yn brysur yn paratoi croeseiriau a tasgau yn arbennig i'r *Angor*.**

**Daeth y diwedd yn hynod o sydyn iddo ar Sadwrn, 5 Mai yn ei gartref yn Gateacre. Un o'r Cymry olaf iddo gael gair â hi oedd Mrs Nan Hughes Parry, sydd yng ngofal aelodau Bethel sydd yn byw yn Woolton a Gateacre. Bu hi yn ofalus iawn ohono a diolch iddi.**

**Cyfrannodd yn helaeth i fywyd crefyddol a Chymraeg Lerpwl. Bu yn weithgar dros ben yng nghapel Bedyddwyr Cymraeg Edge Lane lle y gwnaed ef yn ddiacon.**


**Yr oedd yn ffrindiau mawr gyda'r Gweinidog, y Parchedig I. Cyril John ac yn affaeliad yng nghaniadaeth y Cysegr. Meddai ar lais swynol a bu'n arwain y gân ac yn weithgar iawn yng Nghymanfa Ganu enwad y Bedyddwyr, talaith Sir Gaer a Sir Gaerhirfryn. Ar ôl cau Capel Edge Lane symudodd i Gapel Cymraeg yr Annibynwyr Woolton Road lle y bu yr un mor selog a gweithgar. Fel eraill o'r capel hwnnw bu'n gefnogol i'r Seiri Rhyddion. Ar ôl datgorffori Capel Woolton Road perswadiais ef i ddod yn aelod atom ond erbyn hynny yr oedd iechyd ei briod Audrey yn fregus, a daeth henaint i'w gaethiwo yntau.**

**Gwnaeth ddiwrnod da o waith dros y papur bro, *Yr Angor.* Ef a ddilynodd y Parchedig Ieuan A. Jenkins fel Ysgrifennydd a dosbarthwr y papur bro. Bu ei fab John yn ei gynorthwyo gyda'r dosbarthu a pharatoi yr amlenni. Daeth i adnabod cylch ehangach trwy hynny. Ac ar ôl cael ei ddewis yn Aelod am Oes o'r Pwyllgor Gwaith daliodd i gyfrannu croeseiriau a tudalennau o wneud geiriau, llunio limrigau a llythyron. Roedd yn lythyrwr di-ail.**

**Ysgrifennai yn gyson i'r papur lleol, i benaethiaid y BBC yn cwyno am aml i raglen, a gwelid bob amser ar y bwrdd geiriaduron a chyfrolau amrywiol. Prynai bob cyfrol a ddeuai allan yn fy enw. Byddai wrth ei fodd yn llunio rhestrau o bobl enwog Cymru a Lerpwl. Cadwodd ei gof yn ddiharebol o glir a byw, ac estynnai groeso twymgalon pan alw arno. Byddai'r amser yn diflannu yn y sgwrsio braf.**

**Bu'r arwyl yn Amlosgfa Springwood ar bnawn Iau, 17 Mai o dan fy ngofal a chefais gyfle i ddatgan gwerthfawrogiad o'i gyfraniad i fywyd y ddinas ac i fyd y Cymry alltud. Cydymdeimlwn gyda John a Barbara, mab a merch, Joan y ferch yng nghyfraith a'r diweddar Terry, a'r wyrion a'r wyresau Rachel, Paul, Emma a Gareth a'r gorwyrion a'r wyresau Isabella, Joseph, Harri a Sophia ynghyd â'r perthnasau yng Nghwm Gwendraeth. Collodd *Yr Angor* un o'i chynheiliaid a diolchwn iddo am yr holl gymwynasau a chefnogaeth di-ildio dros y blynyddoedd, ac yn arbennig y chwarter canrif diwethaf.**

***D. Ben Rees***



## Cofio Martin Luther King

***'Heddiw mae gen i freuddwyd!"***

Ynys o gardod a thlodi, – ninnau
heno'n digalonni;
oes brad noeth i'n hysbryd ni
yw'r gynnau a'u drygioni.

Yn y man bydd pob mynydd yn wastad
yn gostwng i'r meysydd;
cydgerdded fydd y gwledydd
a Duw'n llywodraethu'r dydd.

Credaf, daw fe ddaw, ryw ddydd
hawl cydgerdded heolydd;
yn lle cur bydd llaw cariad
yn lle teyrn, ceir llaw y Tad.

*Cymerau*

(detholiad o awdl 'Yfory', Eisteddfod Powys 2009, Y Trallwng)

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Rhaid llongyfarch blaenoriaid Capel Seion am y llewyrch sydd ar yr Adroddiad Blynyddol am 2017. Y mae'r cyflwyniad wedi crynhoi yn ddethol gweithgarwch y flwyddyn ac yn arbennig y cyffro a gafwyd ar Sul, 10 Medi yn y Capel pryd y cawsom ein harwain yn ddiogel; yn oedfa'r bore, mwynhau y gymdeithas yn fawr iawn o amgylch y byrddau, ac yna y Gymanfa Ganu a hir gofir. Edrychwn ymlaen i'r gyfrol ddwyieithog ar gynhyrchion yr Ŵyl a fydd yn dod allan o Wasg y Lolfa erbyn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Bydd llawer ohonom yn falch o weld y cynnyrch llenyddol a'r lluniau a dynnwyd o'r Ŵyl lwyddiannus. Gwerthir y gyfrol am £9.99, ac edrychwn ymlaen yn Seion i brynu nifer o gopïau. Felly y bydd hi ym mhob capel a chymdeithas a fu yn gefnorol i Ŵyl Hedd Wyn. Daw ein cyfle ni i gael rhywbeth gwerthfawr fel rhodd o'r digwyddiad a hir gofir. Felly byddwch yn barod i groesawu cyfrol hardd newydd sbon a olygwyd gan yr Athro Dr. D. Ben Rees.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Anfonwn ein cofion at Mrs Menna Edwards, Blundellsands ar dderbyn meddyginiaeth yn Ysbyty Fazarkley. Deil yn siriol ac yn falch fod y dystiolaeth yn dal yn fyw ym Methania. Mae un-ar-ddeg mlynedd wedi mynd heibio ers i ni adael yr adeilad ar draws y ffordd sydd bellach yn gartref i nifer o bobl. Bu'n gartref i ninnau ac yn bwerdy gras a gobaith yng Ngogledd Lerpwl. Dywedodd un o wragedd enwocaf y ganrif a aeth heibio (ni allaf gofio lle gwelais y geiriau o eiddo y Fam Teresa) ond dyma hwy:

*Byddwch yn garedig ac yn drugarog wrth bawb, a pheidwch gadael i neb ddod atoch chi heb iddyn nhw fynd i ffwrdd yn well pobl ac yn bobl ddedwychaf! Byddwch yn fynegiant byw o garedigrwydd Duw ei Hunan: caredigrwydd yn eich wyneb, caredigrwydd yn eich llygaid, caredigrwydd yn eich gwên, caredigrwydd yn y cyfarchiad cynnes, oherwydd yn y mannau tlotaf,* medde hi *Ni ydyw goleuni caredigrwydd Duw i'r tlawd. I blant, i'r tlodion, i bawb sy'n dioddef ac sy'n unig, gwenwch yn braf – rhowch iddyn nhw o'ch consyrn ond hefyd o'ch calon."*

Dyna ddigon i gnoi cil arno hyd nes y cawn gyfle i weld yn *Yr Angor* adolygiad ar ail agraffiad o ***Cylch yr Amserau*** a ddaeth trwy ymdrech di-flino John P. Lyons. Sonnir am yr aelodau presennol yn y bennod newydd sbon sydd yn y gyfrol, a da gwybod fod gwerthu da ar y llyfr hardd a gyhoeddwyd gan y Wasg lleol, Cyhoeddiadau Modern Cymreig.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*Arglwydd hafau bywyd –*
*llawenydd, llawnder a llwyddiant,*
*Rhyddid, rhyfeddod a chân –*
*Diolch am gael Dy adnabod*
*Fel creawdwr gwyrth ein bod,*
*Am gael gweld a gwybod*
*Am lecynnau hardd*
*Gardd dy gread!*

Dyma ran o weddi *Haf* y Parchedig Pryderi Llwyd Jones. Dyma ein dymuniad ninnau i gael y cyfle i ail-ymweld â'r mannau tawel hynny sydd annwyl yn ein golwg.

Nos Iau y 3ydd o Fai cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Lenyddol. Da gweld Mair Powell wrth y bwrdd yn cofnodi'r cyfan, yr amrywiol awgrymiadau am gyfarfodydd, yn frethyn cartref a gwahoddedigion o'r tu allan. Diolch am adroddiad o'r fantolen ariannol gan Lilian Coulthard ac am lywyddiaeth ein gweinidog.

Bu farw Mr. Ken Williams, 18 Hayles Green, Gateacre ar y 4ydd o Fai yn dawel yn ei gartref. Gŵr hawddgar a'i ddiddordebau yn eang ydoedd. Cyfrannodd lawer i'r *Angor* fel ysgrifennydd a threuliodd lawer o'i amser wrth y bwrdd yn paratoi posau a chroeseiriau ar ein cyfer. Bu ei angladd pnawn Iau, yr 17eg o Fai yn Amlosgfa Springwood o dan ofal ein gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Mae hi'n 'Wythnos Cymorth Cristnogol' ym mis Mai, a diolch i'r gwirfoddolwyr hynny a fu o ddrws i ddrws yn rhannu a chasglu amlenni at yr achos hwn ac yn arbennig felly i Carys Jones am drefnu'r cyfan mor ddi-drafferth.

Roedd y cyfarfod ar nos Lun, yr 21ain o Fai yn dra gwahanol ond yn wirioneddol fendithiol i ni i gyd.

Yn y rhan gyntaf cawsom gwmni Siwan Mair Jones o Rhosllanerchrugog, hi wedi graddio yng Nghaerdydd ond yn dal i weithio'n wirfoddol i efengylu yn y colegau gan annog y myfyrwyr i ddod at ei gilydd i greu Unden Gristnogol i ddarllen Y Gair, gweddïo a chefnogi y naill a'r llall i ledaenu'r newyddion da am Iesu Grist.

Cysylltu â phobl sydd mor bwysig iddi, trefnodd ginio Nadolig gwahanol o 'burgers' a thost a thê am ddim ar y bws arbennig i'r myfyrwyr ar ôl 'noson allan'.

Mae gan Siwan ddiddordeb mewn arlunio a chelf ac mae wedi sgor siop yn Wrecsam. Diolch iddi am ei thystiolaeth a dymwnun yn dda iddi yn y gwaith.

Yn yr ail ran o'r noson cyflwynwyd i ni yr ail-argraffiad o'r gyfrol ddwyieithog 'Cylch yr Amserau' o waith Mr. John Lyons, a diddorol iawn oedd y sgwrs rhwng yr awdur a'r cyhoeddwr Dr. D. Ben Rees.

Ceir ynddo hanes capel Bethania, Waterloo ac achosion y Methodistiaid Calfinaidd yng ngogledd Lerpwl a Southport. Ar ôl i'r eglwys gau am y tro olaf, ac wrth glirio daeth John ar draws hen ddogfennau a llyfrau cofnodion, ac er eu bod mewn cyflwr truenus, turiodd drwy'r cyfan a ffrwyth ei lafur a'i ddyfalbarhad a gawn yma. Cofnod arbennig yn hanes eglwys Bethania ydyw a gwerth ei bwrcasu. Gwerthwyd llawer o gopïau ar y noson, a thrafodaeth rydd uwchben paned o de a lluniaeth ysgafn yn melysu'r gymdeithas.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at yr aelodau hynny sydd yn methu dod atom ar y Sul a noson waith ar hyn o bryd. Ond da oedd gweld tair ohonynt allan ar y Sulgwyn, sef Mrs Nerys Vaughan Jones, Aigburth, Mrs Siân Hartley a Mrs Meinwen Rees y ddwy o Allerton.


**Cysylltwch â'r**

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORIWYD YN NHYFLIANT EIN CENEDL'

**dbenrees@gmail.com**



Dros y 18 mis diwethaf mae
***Corau Cymru***
wedi cyhoeddi 4 CD yn y gyfres

**HOFF EMYNAU**

yr un diweddaraf gan
Gôr CF1, Caerdydd.

Mae pob CD yn cynnwys i fyny at 15 o emynau poblogaidd wedi eu recordio gan gorau adnabyddus.

Ar gael yn awr am £12 ynghyd â llyfryn sy'n cynnwys y geiriau a'r tonau oddi wrth
***www.coraucymru.com***

# CYMDEITHAS CYMRU FYDD, LERPWL

Siom fawr i mi i pan ddeuthum i Lerpwl yn 1968 oedd clywed bod arweinwyr Cymdeithas Cymru Fydd wedi cau ei drysau yn Upper Parliament Street. Trychineb o'r mwyaf fod Cymry yn cau drysau y ganolfan a'r Gwyddelod yn agor canolfan newydd yn Mount Pleasant. Byddwn yn galw yno yn wythnosol bron yn y saith degau gan fod ganddynt llond bwrdd o bapurau dyddiol a wythnosol o Iwerddon.

Ni welais ysgrif yn unman ar hanes y Clwb yn Upper Parliament Street. Aiff y gymdeithas yn ôl i 1894. Deallaf hefyd mai yn Nhachwedd 1938 agorwyd y drysau led y pen yn bennaf ar gyfer cyfarfod canu ar Nos Sul. Tyrrodd y Cymry ifanc yno wrth y cannoedd. Deallaf fod dau gant wedi ymaelodi yn y flwyddyn gyntaf a daeth yr Ail Ryfel Byd i roddi her aruthrol i'r ymddiriedolwyr. Ond bu'r clwb yn gartref i'r Cymry na fu'n rhaid iddynt fynd i'r Ail Ryfel Byd ac i'r milwyr a'r morwyr a ddeuai i Lerpwl ymuno ar y Nos Sul yn y canu. Hughie John Jones oedd un o'r arweinyddion y Gymanfa wythnosol a chofiaf ef yn dweud wrthyf fod morwr ifanc o'r enw L. Jim Callaghan (a ddaeth yn Brif Weinidog 1976-79) wedi galw un nos Sul i fwynhau'r gân. Parhaodd y canu bob nos Sul, a hynny ynghanol difrod y bomio fis Mai 1941 pan ddinistriwyd cartrefi, capeli, siopau, neuaddau a stordai.

Meithrinwyd doniau lawer yn y Clwb, ond yn fwy na dim creu ffrindiau, ac aml un yn ffeindio partner bywyd. Felly y digwyddodd hi yn hanes Ted Clement-Evans, un o Gymry bumed cenhedlaeth Lerpwl, a Janet, merch o Aberdyfi. Nid nhw mae'n siwr oedd yr unig rai, os gwyddoch am ragor beth am roddi neges i ni? Hoffwn yn wir dderbyn atgofion am ganolfan y Cymry. Diolch bellach fod gan y Cymry o bob oedran Ganolfan addas iawn ger Penny Lane, a daw y Cymry ifanc yno yn achysurol, ond mae'r dysgwyr wrth eu bodd yno bob nos Lun.

***D. Ben Rees***

## Y CYMRO

DYDD IAU, AWST 30, 1894.

**SEFYDLU CYMRU FYDD.**

CYNHALIWYD y cyfarfod i'r dyben o sefydlu y gymdeithas newydd hon yn Llandrindod yr wythnos ddiweddaf. Daeth lluaws ynghyd, yn enwedig o'r Deheudir. Dau oedd yn cynrychioli Cymry Lerpwl yn y cyfarfod. Amser anhwylus ar y flwyddyn ydyw hwn i'r trefydd Seisnig, oddieithr i'r sawl oedd ar eu gwyliau ar y pryd, ac yn arfer eu treulio yn Llandrindod.

Er fod ychydig annghydweledaid ar rai mân bethau yn y cyfarfcd, yr oedd yno lawer rnwy o gydsyniad nag o'r elfen wrthwynebol. Anhebgor mawr y Gymdeithas yn y cyfnod presenol ar ei bodolaeth, ydyw ysgrifenydd call, pwyllog. egniol. Gyda swyddog felly, gall y symudiad ddyfod yn allu yn ebrwydd; hebddo. Ni wna ond lledfyw am ychydig, ac yna marw. Ysgrifenydd da, galluog ydyw'r angenrhaid. Rhaid talu cyflog anrhydeddus am ddyn o'r fath. O b'le daw'r arian? Fel y dywedodd rhywun, cheir fawr o help gan Esgobion ac Arglwyddi; rhaid apelio at gylch eangach.

Paham na chymerai Cymru Fydd esiampl oddiwrth y gangen ohoni sydd mewn bod o'r blaen hi ei hun (ymadrodd rhyfedd), sef Cymdeithas Cymru Fydd Lerpwl. Y mae hi "yn talu ei ffordd tan ganu," chwedl Tanymarian. Gwnaeth elw rhagorol oddiwrth gyngherdd mawreddog a drefnwyd ganddi yn y Philharmonic Hall y llynedd; a bydd ganddi gyngherdd arall i'r un perwyl yn mis Hydref. Beth sydd yn lluddias i'r Gymdeithas a sefydlwyd yn Llandrindod i godi Côr cryf at gynal cyngherddau yn y prif ddinasoedd a'r llanau poblogaidd yn Lloegr a Chymru

Byddai a leiaf ddau fantais gyda'r cynlIun hwn: (1) Ceid gwybod beth yw barn y cyhoedd am y Gymdeithas newydd yn ôl y brwdfrydedd a ddangosid i'w helpu yn ei hanturiaeth gyntaf; (2) gyda threfniadau doeth, dygai'r cyngherddau hyn rai canoedd i drysorfa'r Gymdeithas mewn byr amser, yr hyn a fyddai o gryn help i roi cychwyn effeithiol i'r symudiad.


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

# HENADURIAETH I'W CHOFIO I FLAENORIAID NEWYDD MANCEINION

Roedd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain yn yr Wyddgrug ar 23 Mai 2018 yn un arbennig iawn i ni ym Manceinion, am fod dwy chwaer o gapel Noddfa Oaker Avenue yn cael eu holi yn y prynhawn a'u hordeinio fel blaenoriaid yn sesiwn y nos. Roedd yn ddiwrnod hapus a diddorol i bawb. Y Parch Huw Powell Davies oedd i holi'r darpar-blaenoriaid, a threfnodd y llywydd, y Parch David Owens, i fusnes yr eisteddiad yn y prynhawn orffen mewn da bryd er mwyn cael digon o amser i glywed atebion y tri oedd yn cael eu holi sef: Mr Dewi Redfern-Lloyd Jones o gapel y Berthen, Licswm, Mrs Eflyn Evans a Mrs Mair Swift o gapel Noddfa Oaker Avenue, Manceinion.

Holodd Huw am daith eu bywyd hyd at y digwyddiad arbennig hwn yn eu profiad ac roedd yn ddifyr i glywed y ffordd y mae Duw yn arwain pob un mewn ffordd wahanol. Dewi wedi dod yn ôl i fywyd yr eglwys ar ôl cyfnod i ffwrdd, ond gydag agosau at ei dad ar ddiwedd ei fywyd a chael cymorth y gweinidog ar y pryd, y Parch Ddr Elfed ap Nefydd. Roedd cael ei ethol yn flaenor yn gryn sioc iddo, ond roedd yn barod i wneud y gwaith o dan arweiniad y gweinidog newydd Parchedig R. W. Jones gyda chefnogaeth yr aelodau.

Roedd y ddwy arall Mrs Eflyn Evans a Mrs Mair Swift, wedi bod yn rhan o gymdeithas y capeli ym Manceinion am flynyddoedd ac yn barod erbyn hyn i ateb galwad eu cyd aelodau i fod yn fwy gyfrifol am yr Achos. Roedd pob un wedi dyfynnu geiriau o'r Beibl oedd yn golygu llawer iddynt yn eu profiad a Dewi a Mair wedi sôn am yr un Salm, Salm 121: *"Codaf fy llygaid i'r mynyddoedd o ble y daw cymorth i mi? Daw fy nghymorth oddi wrth yr Arglwydd, creawdwr nefoedd a daear* .......'. Darpariaeth llawn Duw ar ein cyfer sydd gan y Salmydd.

Dewisodd Eflyn eiriau Paul yn ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid pennod 13 fel ysbrydoliaeth iddi ac yn ffynhonnell nerth yn arbennig yr adnod olaf: 'Mewn gair y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn yn aros .. .' ac ychwanegodd Eflyn y gair 'gweddi' i'w rhestr o'r rhinweddau oddi wrth Dduw oedd wedi rhoi nerth iddi hi mewn sefyllfa anodd yn ei bywyd, sef gwaeledd difrifol ei mab – Duw oedd wedi rhoi eu presenoldeb iddynt trwy ei Air, ac roedd gwyrthiau wedi canlyn o ddal ar y geiriau pŵerus hyn.

Yn oedfa'r hwyr, gwelsom weithwyr ffyddlon yn yr eglwys yn cael eu llongyfarch sef: Mr Ifor Thomas am 40 mlynedd o wasanaeth fel blaenor, a'r Parch Trefor Jones-Morris am ei 40 mlynedd yng ngweinidogaeth y Gair a'r Sacramentau. Wedi'r llongyfarch, aeth y gwasanaeth ymlaen o dan arweiniad Llywydd y Gymdeithasfa. Mae'r broses yr un bob blwyddyn ac ym mhob man yn ein henwad, ond y bobl a'r atebion sy mor unigryw.

Llywydd y Gymdeithasfa, y Parch Olwen Williams o Tudweiliog oedd yn llywyddu'r ordeinio, Parch Eirlys Gruffydd-Evans a ofynodd am fendith Duw – ac wedi cynnig llaw dde cymdeithas i'r Blaenoriaid newydd yn enw'r Gymdeithasfa, rhoddodd Olwen siars gofiadwy dros ben iddynt ac i ninnau oll, gan sôn am Caleb un o'r sbïwr a aeth i wlad Canaan i baratoi taith Josua a'r dyrfa Dduw i wlad yr Addewid. Roedd gan Caleb ddawn arbennig i galonogi'r bobl ac roedd yn ei gymeriad rinweddau fel ymrwymiad a ffyddlondeb i Dduw, sicrwydd o addewid Duw, hyder a dewrder, sydd angen mewn blaenoriaid hefyd yn eu tasg o arwain yr Eglwys ymlaen i'r dyfodol.

Cafodd y blaenoriaid newydd eu croesawu i'r Henaduriaeth trwy dderbyn llyfr ac roedd y gwasanaeth yn un i gofio yn wir, mewn capel llawn goleuni a moliant. Diolchwn i Dduw am alw, ac i bobl am ymateb i'r alwad heddiw eto. Diolch am y croeso a'r lluniaeth blasus.



***Parch Robert W. Jones, Mrs Marian Lloyd Jones, Mrs Marion Simkin, Mrs Eflyn Evans, Mr Dewi Redfern-Lloyd Jones, Parch Olwen Williams, Mrs Mair Swift, Parch Eirlys Gruffydd-Evans, Parch David Owens, Parch Eleri Edwards.***

*__CRWYDRO CYMRU__*


# BERWYN

Y mae Berwyn yn gwarchod ffin dwy o hen siroedd Cymru: Meirionnydd a Maldwyn. Gellir mynd yn weddol o Ddyffryn Ceiriog i'r Bala a Phenllyn dros y Berwyn. Mae'r ffordd yn gul mewn mannau ond at ei gilydd yn hwylus.


Cyn dyfod y car modur cerddai'r Cymry dros y Berwyn, yn arbennig yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi i'r Bala ddisodli Llangeithio fel meca'r Methodistiaid. Gwawdiodd Ann Griffiths, Dolwar Fach, y pererinion hyn cyn eu throedigaeth, fel y a sonnir yn y cylchgrawn o'r enw *Traethodydd*:

> "Dywedai yn wawdus am y bobl a fyddai yn myned i Gymdeithasfa y Bala 'Dacw y pererinion yn myned i Mecca' gan gyfeirio at bererindod y Mahometaniaid."

Trodd y dirmyg yn ddiolchgarwch yn ei hanes hi. Gwelwyd Ann Griffiths, yr emynyddes, yn mynd yn gyson unwaith y mis i dderbyn y Cymun o law y Parchedig Thomas Charles yn y Bala. Cerddai yntau yn gyson dros y Berwyn ac fe'i daliwyd un tro mewn storm o eira. Bu bron iddo fferu a chollodd rai o fysedd ei law fel canlyniad i'r daith honno.



***Llyn Lluncaws ac unigeddau mynyddoedd y Berwyn***



***Cof-golofn Thomas Charles o flaen Capel Tegid***



***Y ffordd fawr dros y Berwyn o'r Bala i Langynog***

*Myfyrdod*

# ELW ADDFWYNDER

Cyn cymeryd fy swydd fel Athro yn Ysgol Eilradd West Hill, Stalybridge, Manceinion fe gafodd athrawon newydd yr Awdurdod daith o gwmpas Manceinion. Cofiaf fynd i Moss Side, a chofiwch bod hyn yn 1959, fe welais y budreddi, tlodi, y brytni a mannau 'the Ladies of the Night'.

Dyna'r mannau a welodd Josephine Butler yn Lerpwl a phan welodd y puteiniaid – *"There but for the grace of God go I"*. Cof, wedyn, o weld graffiti *"The meek shall inherit the earth (if that is O.K. with the rest of you")*. Camgymeriad oedd hyn oherwydd beth ddywedodd Crist oedd "Gwyn eu byd y rhai addfwyn canys hwy a etifeddant y ddaear".

Hoffwn, yn gyntaf fynd a chi yn ôl i'r Waenfawr yn 1955 a'r Parchedig Harri Williams (a fagwyd yn Lerpwl) fy ngweinidog yn dweud, "Yn y cwymp, fe gollodd DYN y darn "addfwyn" o eiddo Duw yn ei enaid ac fe aeth (sef y dyn) yn gyndyn, yn ffyrnig, yn greulon ac yn anodd i'w drin.

Pan ddaeth yr Iesu i'n byd fe ddywedodd "Addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon". Felly yn union mae pob dyn sy'n dyfod at Grist ac yn credu ynddo".

Byddaf yn hoffi rhaglenni am anifeiliaid (bron bob un) ar y teledu ond roedd un yn sefyll allan fel y recordiais ef. Y pwnc oedd trin ceffylau. Yr arbenigwr oedd Americanwr, un oedd wedi byw ar paith Arizona yn trin y "mustang". Yn y rhagymadrodd fe soniwyd am gefndir y ceffyl, ei fod yn wyllt ofnadwy, ac yn mynd yn lloerig os oedd yn cael ei gyfyngu. Yn wir fe ddangoswyd hyn yn y rhaglen. Daethpwyd a'r ceffyl i'r cylch ac yn wir roedd yn edrych yn wallgof. Mewn ychydig ddyddiau buasech wedi synnu gweld y gwahaniaeth. Roedd y ceffyl yn sefyll yn y cylch yn hollol dawel a'r llinyn ffrwyn a'r cyfrwy'n barod. Roedd o dan berffaith reolaeth. Pwysleisiodd yr arbenigwr nad oedd wedi defnyddio na chwip nac ofn ond wedi dibynnu'n llwyr ar "ADEILADU PERTHYNAS GYDA'R ANIFAIL ER MWYN I HYDER TYFU RHYNGDDYNT".

Clywais mewn darlith un tro bod cyfieithiad o'r gair "*meek*" yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio ceffylau "*broken in*". Credaf bod addfwynder ddim o gwbl yn dangos gwendid ond yn hytrach gryfder dan reolaeth. Doedd y ceffyl ddim wedi colli dim o'i gryfder ond yn lle hynny roedd ei egni wedi ei sianelu i gael yr effaith mwyaf ohono. Er ei fod un tro yn rhedeg yn wyllt, nawr mae'n rhedeg yn rhydd.

Dywed Aristotle bod addfwynder *"the balance between extreme anger and excessive angerlessness"*. Mae'r addfwyn i bob pwrpas yn gwylltio ar yr adeg iawn a byth ar yr adeg anghywir. Mae hyn, onid yw, yn dangos nad yw'r addfwyn ofn sefyll i fyny am ei ddaliadau a drosto'i hun.

Beth, felly, ydy ystyr bydd yr addfwyn yn etifeddu'r byd? Clywais bregethwr yn dweud un tro bod hyn yn esiampl *"of one of God's upside-down values"*. Rydw i'n 89 oed eleni ac wedi byw trwy ugeiniau o ryfeloedd yn y byd ac er ei bod yn edrych fod y balch ac hunanol yn llwyddo ewch i ddiwedd hanes y ceffyl. Pan oedd ar y diwedd o dan reolaeth fe gawsai rhedeg yn rhydd ac felly ninnau pan awn o dan gyfaredd Duw – cael ein rheoli ganddo Ef.

Ydych yn amau? Wel ewch i Salm 37 -- Duw sydd yma yn rhoddi inni "*desires*" ein calonnau, dydy ni ddim i ddigalonni ac yn sicr bod teyrnasiad y Drwg yn dod i ben. Cofiwn dydy amser yn ddim iddo Fe ac wrth DISGWYL rhoddwn ein ymddiried yn llwyr ynddo Ef.

***ELWYN PARRY***

# Gŵyl o Ddiolch am 70 mlynedd o Wasanaeth Iechyd Cenedlaethol (NHS)

### Sadwrn a Sul, 7-8 Gorffennaf 2018



*Aneurin Bevan*

## Bore Sadwrn 7 Gorffennaf

**yng Nghanolfan y Cymry, Auckland Road, Lerpwl**

ceir Sesiwn yn Gymraeg (bydd cyfieithydd ar gael) o 11.30 i 1.15

**10.30-11.15 –** Darlith gyntaf. Aneurin Bevan yn creu y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol Gorffennaf 1948 gan y Parchedig Athro Dr. D. Ben Rees.

**11.15 i 11.45** – Seibiant i gael lluniaeth ysgafn

**11.45 - 1.15** – Sesiwn o dan ofal Dr. Mari Lloyd Williams, Prifysgol Lerpwl, Dr. Rhys Davies, Ysbytai Gwynedd a Aintree a Dr. John G. Williams yn egluro y newidiadau a gymerodd le mewn meddygaeth o 1948 i 2018.

Pris £2 y pen am y bore.

## Nos Sadwrn am 7.30

**yng Nghapel Eglwys Fethodistaidd, Elm Hall Drive, Lerpwl**

**CYNGERDD – Côr Meibion Prysor, Trawsfynydd. Pris tocyn £10**

## Sul, Gorffennaf 8

**Oedfa o Ddiolch am y Gwasanaeth Iechyd** yng Nghapel Bethel, Lerpwl.

*Cennad:* Parchedig Ddr. Goronwy Prys Owen, Bala.

***Trefnir y cyfan gan Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi***

# SAFIAD Y TADAU

## *gan y Dr. D. Ben Rees*

*'Trwyddi hi y cafodd y rhai gynt enwau da'* -
Hebreaid 11:2

Dywed Syr T H Parry-Williams yn un o'i ysgrifau bytholwyrdd mae crefydd leol, lwythol gyda phwyslais ar esiampl y rhai a'n rhagflaenodd oedd ei grefydd ef. Gallaf ddeall hyn yn iawn. Nid dyna ydyw'r grefydd Gristnogol yn ei chyfanrwydd ond mae'n rhan bwysig ohono. Cawn ein hatgoffa o hyn gan ein hemynwyr. Gwrandawn ar y Parchedig D. J. Davies a roddodd oes o wasanaeth i Gapel Als, Llanelli:

*Melys ydyw cofio'r tadau*
*A fu gynt â'u ffydd mor fawr,*
*Yn ymdrechu ag angylion*
*A chael bendith gyda'r wawr*
*Doed y nef a'r fendith eto*
*Drwy ymdrechion dynion Duw:*
*Rhoed ei nerth ym mraich y meibion*
*Yng ngoleuni'r ffydd wrth fyw.*

Dyna bennill sydd werth myfyrio yn helaeth arno. Cofio i ddechrau'r arloeswyr a'r rhai a anturiodd dros dir a môr. Rwyf newydd ddarllen cofiant gwerthfawr Roy Hattersley ar John Wesley ac mae'n agoriad llygad i fywyd un a gyfrannodd i'n Methodistiaeth ni yng Nghymru. Ef a Howell Harris yn bennaf ffrindiau a'r ddau yn dioddef yn enbyd o'r un clwyf, mercheta. Ni allai John Wesley, ac yr oedd ei frawd yn ddigon tebyg cyn iddo briodi â Sarah Gwynne o'r Garth ger Llangamarch, gadw ei lygaid rhag dengarwch y merched! Ac eto pan gafodd wraig ei hunan bu'n ddigon di-hid ohoni gan grwydro i bob cyfeiriad yn enw'r Efengyl. Ar ôl darllen y gyfrol, credaf y dylai fod wedi aros adref dipyn mwy, ond hawdd dweud hynny! Oni fu miloedd o genhadon eraill yn debyg iddo o John Elias o Fôn hyd Tom Nefyn Williams a Jubilee Young. Dioddefodd gartrefi lu o'r tadau daionus hyn gan yr alwad i gyhoeddi Gair y Bywyd, ond cydnabyddwn gyda D. J. Davies fod ei ffydd yn herfeiddiol. Nid oedd dim yn eu dal yn ôl. Heddiw yr ydym ni yn ofni dipyn o eira ac yn barod i dorri cyhoeddiad am ein bod yn amharod wynebu ar broblemau'r tywydd ac nad yw pobl a ddaw i'n capeli mor ddibynnol ag y medrent fod. Cofiaf bron ddeugain mlynedd yn ôl bellach, deithio i bregethu i Glyncorrwg o Lerpwl. Cyfarfodydd Pregethu dros y penwythnos. A phan oeddwn yn agosáu at Benderyn ar brynhawn Sadwrn dyma hi'n dechrau bwrw eira. Gwaethygodd y sefyllfa dros y Rhigos ac i law i'r Rhondda, ac yna dros y Bwlch, am Nant-y-moel. Oedfa am hanner awr wedi chwech a phan gyrhaeddais Glyncorwg yr oedd blanced o eira dros bob man a'r capel heb olau. Eisteddais yn y car ac ymhen rhai munudau gwelwnŵr yn ymlwybro am ddrws y capel. Euthum ar ei ôl a chael cynulleidfa o hanner dwsin a minnau wedi dod yr holl ffordd o Lerpwl! Roedd fy ffydd wedi fy nghario yno ond bum mewn cyfyng gyngor ac yn ymdrechu gyda fy ofnau. Ond ar ôl derbyn caredigrwydd ar aelwyd Mr a Mrs Mitchell (ef oedd perchennog y bysiau lleol) daeth bendithion o garedigrwydd a gofal i'm hamgylchynu. Bu'r Sul yn well o ran ymateb ac euthum adref bore Llun wedi derbyn bendithion cymdeithas pobl Duw. Ymdrechwyd yn galed i gadw'r fflam i fynd a deil y dystiolaeth yn fyw mewn rhai o bentrefi'r cymoedd o hyd am fod rhywrai wedi ymateb i alwad y Duw tragwyddol. Ie, heb amheuaeth, trwy ymdrechion dynion a merched Duw. Nac anghofier ymdrechion y merched oddi ar ddyddiau'r Arglwydd Iesu hyd ein dyddiau ni. Ac y mae gan Eglwys Dduw record ardderchog, miloedd o Saint, yn barod i gyhoeddi'r Gair.

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

### *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2018. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin 2018 ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

i) **Rhifyn Awst/Medi 2018 –** erbyn bore Sul, 1 Gorffennaf 2018 – neu ar y we i dbenrees@gmail.com
ii) **Rhifyn Hydref 2018** erbyn bore Sul, 2 Medi, 2018 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc. i benatgarthdrive@talktalk. net
iii) **Rhifyn Tachwedd 2018 –** erbyn bore Llun, 1 Hydref, 2018 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 2 o'r gloch ar ddydd Llun, 1 Hydref 2018.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

*BYRGOFIANT I*

# SYR JOHN HERBERT LEWIS

## (1858-1933), Lerpwl a Caerwys

Ganwyd ef ar 27 Rhagfyr 1858 yn Mostyn Quay, sir y Fflint, unig fab Enoch Lewis, gor-nai y diwinydd Calfinaidd a'r emynydd Thomas Jones o Ddinbych. Cafodd bob cyfleuster addysgol, a bu ym Mhrifysgol McGill yn Montreal, Canada a Choleg Exeter, Prifysgol Rhydychen lle y graddiodd yn 1879. Dechreuodd ar ei yrfa yn 1885 yn ninas Lerpwl fel cyfreithiwr. Ef a Syr Alfred Thomas Davies gŵr dylanwadol arall yng Ngogledd Lerpwl. Yr oedd gan Herbert Lewis ewythr, brawd ei dad, Edward Lewis yn Lerpwl. Gŵr busnes ydoedd ef, a'i siop ddillad yn lewyrchus, ac yntau yn defnyddio ei gyfalaf i helpu plant difreintiedig. Talai am ei dillad a bu'r ysgol yn ddibynnol arno am bres i weithredu am gyfnod o ddeugain mlynedd.

Priododd Herbert ag Adeilaide, merch Charles Hughes, o gwmni cyhoeddi Hughes a'i Fab, Wrecsam, a hynny yn Nhachwedd 1886. Trigent ar ddechrau ei bywyd priodasol yn Lerpwl. Ond creodd hinsawdd laith Lerpwl asthma unwaith eto yn ei hanes a symudwyd i



*Syr John Herbert Lewis*


Blas Penucha, Caerwys. Chwaraeodd Herbert Lewis ran bwysig yn nyfodiad mudiad Cymru Fydd i Lerpwl a chadeiriodd gyfarfodydd pwysig yn ogystal â bod yn swyddog. Ef oedd cadeirydd cyntaf Cyngor Sir y Fflint a hynny yn 1889 ac etholwyd ef yn aelod seneddol dros fwrdeisdrefi Fflint yn 1892 fel olynydd i John Roberts, Lerpwl ac Abergele. Parhaodd yn AS hyd 1906, pryd aeth ef yn AS dros y Sir hyd 1918, ac yna am bedair blynedd dros Brifysgol Cymru o 1918 i 1922.

Bu farw ei briod yn 1895, ac ailbriododd Ruth Caine o Lerpwl, merch yr Aelod Seneddol W. S. Caine a ganwyd iddynt fab Dr. Mostyn Lewis a merch Mrs Katie Idwal Jones. Dysgodd Ruth Caine y Gymraeg a chyflawni gryn lawer dros ddiwylliant ei gwlad fabwysiedig. Cyfarfu Syr Herbert Lewis â damwain wrth fynychu Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Aberystwyth, a bu'n orweddiog hyd ei farwolaeth ar 10 Tachwedd 1933.

Idwal Jones, Sir John Herbert Lewis (1858-1933), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), 521; (Gol.) K. Idwal Jones, *Syr Herbert Lewis 1858-1933* (Caerdydd, 1958), 1-108.

# Stori Wynn o Dregarth

***(D. Wynn Williams, Tregarth)***



Dechreuais fy ngyrfa fel clerc bach ym Manc y District yng Nghaer. Yno ymaelodais yn Eglwys John Street o dan weinidogaeth y Parchedig Herbert Evans. Ymunais hefyd â Chymdeithas Gymraeg y ddinas a chael y Parchedig Hugh Rowlands yn gyfarwyddwr drama.

Yn anffodus methodd y Llu Awyr â gweithredu heb fy nghwmni ac wedi cyfnodau yn Pershore a Thornaby bum yn 'ffodus', oherwydd fy ngallu i deipio, i gael swydd gydag adran Heddlu y Llu Awyr yn Bowlee, a chael teithio ambell dro gyda W/c Bill Bowes a fu yn aelod o'r grŵp wnaeth erlyn y Natsïaid yn Nuremberg. Fy swyddogaeth i oedd teipio digwyddiadau erlyniadau yn erbyn troseddwyr o blith yr Awyrlu.

Gwnes lawer o gyfeillion ymysg Cymry Manceinion a mynychais y capel Cymraeg agosaf sef 'Heywood Street' o dan weinidogaeth y Parchedig John Roberts (John Bach) - corrach o ddyn ond cawr o bregethwr. Bu ef a Mrs Roberts yn garedig iawn yn rhoi swper i mi cyn dychwelyd i'r gwersyll.

Wedi'r *de-mob* cefais swydd gyda'r Banc yn Rusholme, Manceinion a chael llety yn Salford, lle trigai llawer o Gymry ifanc. Pob nos Wener fe ddeuai'r gŵr casglu rhent i'r drws. Gŵr tawel a boneddigaidd a ddisgrifiwyd gan wraig y tŷ fel un oedd yn 'peintio rhyw ychydig'. Trueni na chefais y crebwyll i brynu un ohonynt gan L.S. Lowry!

Yng nghapel Pendleton y byddwn yn addoli erbyn hyn, gyda tua 40 o athrawesau a bechgyn o gwmni MetroVic. Tair gwaith yr wythnos byddai'r Clwb Cymraeg ar agor, gyda'r bechgyn yn byw o Sadwrn i Sadwrn - noson y ddawns! Rwy'n dal mewn cysylltiad â rhai ohonynt dros 64 blynedd yn ddiweddarach.

Erbyn hyn roedd Salford yn bell o Rusholme felly neidiais ar y cyfle i gael fflat yn Chorlton-cum-Hardy lle gallwn feicio i fyny Moss Lane i'r gwaith.

Cefais bythefnos yn helpu allan yng nghangen y Banc yn Stretford lle cefais gwsmer enwog un bore - neb llai na Matt Busby a chwarae teg, cefais docyn Old Trafford ganddo. Ni chyfaddefais mai tîm Man City a gefnogwn – roedd dau Gymro, Roy Paul a Roy Clarke yn chwarae iddynt, felly doedd dim dewis.

Roedd byw ar gyflog bach mewn dinas fawr yn anodd a Chymru yn galw felly ffarweliais â'r Banc a dwad adref i Fangor i redeg siop a swyddfa bost efo'm rhieni, cyfarfod Eirwen a phriodi yn Shiloh, Tregarth, a magu dau o blant.

# ADOLYGIAD

***'JOSIAH HUGHES (1804-1840) - Y CENHADWR CYNTAF O BLITH CYMRY LERPWL'***
gan D. Ben Rees
(Lerpwl, Cyhoeddiadau Modern Cymreig, Rhagfyr 2016)
Clawr caled. Pris : £15

Mae hon yn gyfrol ddwyieithog ac awgrymog yw'r is-deitl Saesneg - 'Josiah Hughes - the Reluctant Welsh Calvinistic Methodist Missionary of Malacca'.

Cyflwynir y gyfrol i dad y gwrthrych sef Mr John Hughes, Mansefield Street, Lerpwl blaenor blaenllaw a blaengar yng nghapel Rose Place, Lerpwl a phriodol, fel y dywed yr Awdur yw cyhoeddi hanes y mab yn ddwyieithog i adlewyrchu iaith yr aelwyd. Mae hyn yn ehangu apêl y gyfrol yn enwedig i garedigion hanes y Genhadaeth gynnar ymhlith aelodau'r eglwys yma a thramor.

Cryfder y gyfrol yw'r olwg a gawn ynddi ar gyd-destun y berthynas rhwng y cenhadon a'i gilydd ar y maes ym Malacca, Malaysia. Mae'r berthynas rhwng y cenhadwr o Fedyddiwr Saesneg, Jacob Tomlin a Josiah Hughes yn cael ei ddadlennu'n gynnil ac arwyddocad y berthynas yn cael ei egluro'n gyhyrog wrth gloriannu dylanwad anuniongyrchol y ddau ar gychwyniadau a chyfeiriad Cymdeithas Genhadol y Methodistiaid Calfinaidd yn 1839. Ac er na cheir disgrifiadau cynhwysfawr o'r gwaith ar y maes ym Malacca fe gawn olwg ar gyd-destun y tensiynau a gododd rhwng Josiah Hughes â Chymdeithas Genhadol Llundain ac a arweiniodd at ei ymddiswyddiad yn 1835. Mae'r awdur wedi casglu'r hanes yn fanwl o ffynhonellau gwreiddiol y cyfnod ac fe gynnwys dyfyniadau dadlenol o lythyrau a dehongliadau treiddgar. O gofio cefndir yr awdur nid yw'n syndod chwaith fod y gyfrol hefyd yn gyforiog o gyfeiriadau pwysig at ddylanwad arweinwyr capeli Lerpwl yn esblygiad Cymdeithas Genhadol y Methodistiaid Calfinaidd a ddaeth, maes o law yn gyfrwng bendith yn llaw yr Arglwydd yng Ngogledd Ddwyrain yr India ac mewn sawl gwlad arall.

Tair cymwnynas o leiaf a gawn o'r gyfrol werthfawr hon. Cymwynas y wasg Cyhoeddiadau Modern a'r awdur yn cyhoeddi heb nawdd. Dyma hanes o arwyddocad pellgyrhaeddol ym mherthynas Cymry Lerpwl, Cymru a'r byd. Diolch fod ffrwyth y wasg hon yn elw i ni. Mae'n gyfrwng i fywhau y cof sydd yn darfod o'r tir am un o'r Cymdeithasau grymusaf a gododd ymhlith eglwys Crist yng Nhymru a Lerpwl.

Yn ail mae'r gyfrol yn gofnod o rwystredigaeth, siom a brwydrau y llafurwyr yn y meysydd cenhadol sy'n tystio i ffaeledigrwydd pob mudiad ac unigolyn ond sydd, trwy hynny yn dod a ni i ryfeddu fwy-fwy at ddaioni Duw a'i Benarglwyddiaeth yn rhoi cynnydd i'r had.

Mae'r gyfrol hefyd yn plethu'r ffactorau ddaru ddwyn perswad ar arweinwyr y Methodistiaid yn Lerpwl i ymwroli i'r broses o wahanu ymdrechion cenhadol y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig oddi wrth Gymdeithas Genhadol Llundain. Yn y blynyddoedd cyn sefydlu Cymdeithas Genhadol (gartrefol a thramor) y Methodistiaid Calfinaidd ac ar sail ei brofiadau yn Malacca gyda Josiah Hughes bu i Jacob Tomlin eiriol yn effeithiol dros sefydlu Cymdeithas newydd. Maes o law derbyniwyd awgrym Tomlin y dylid dewis Gogledd Ddwyrain yr India fel priod faes cenhadol yn anad un gwlad na thiriogaeth arall, a bryniau Casia yn benodol a ddatblygodd yn flaenffrwyth o faes ehangach ble cafwyd cynhaeaf toreithiog.

Ac er na chafodd Josiah Hughes ddymuniad ei galon i wasanaethu yn yr India (dyma sail ei gyndynrwydd i fynd i Malacca) eto, trwy Ragluniaeth ryfedd, yr India a gafodd fantais o aberth y gwron dewr hwn o blith Cymry Lerpwl. Ar y 26ain o Dachwedd 1840 gosodwyd corff y cenhadwr i orwedd ym mhridd Malacca. Bu farw'n ifanc o'r cholera.

Mynnwch gopi o'r gyfrol ar unwaith a diolch o galon i Ben unwaith eto am ein cyfoethogi trwy lygad hanes a thrwy oleuo'n treftadaeth Gristnogol.

*Parchedig Aneurin Owen,*
*Llansannan.*


# Defnyddiwch Yr Angor i Hysbysebu

Gall yr Angor gynnig cyfle da bob mis. Achubwch ar y cyfle.
Mae ein cyfraddau yn rhesymol iawn –
£60 am dudalen lawn; £30 am hanner tudalen; £15 am chwarter tudalen.
a llai fyth am air o longyfarch, cydnabod, diolch, cofion Nadolig ac ati.

*Cysylltwch gyda'r Cadeirydd: Dr. John G. Williams;*
*Ysgrifennydd (Ben Hughes); Trysorydd (Roderick Owen)*
*neu'r Golygydd (Dr. D. Ben Rees) neu un o'r Pwyllgor Gwaith.*

**Ffurflen Archebu Hysbyseb yn yr Angor**

Enw: ..........................................................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................................................

..................................................................................................

**Cost 25c y gair, £5 lleiafswm.**
**Anfonwch siec os gwelwch yn dda i'r Trysorydd gyda'r hysbyseb**




***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***


CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor,*
*Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn*
*07729 960484*


# Canmolwch y rhain i'r cymylau





*Cartref Gwasg y Brython yn Bootle*




*Hen jwg o Gapel yn Lerpwl*



*John Gibson-Grey,*
*cerflunydd mawr y byd*




*Carreg i goffau W. R. Evans*
*ar y Preselau*



*Golwg ar Fae Ceredigion o fis mawr Sir Benfro*